THOMAS, JOHN ('Eos Gwynedd '; 1742 - 1818), bardd

Enw: John Thomas
Ffugenw: Eos Gwynedd
Dyddiad geni: 1742
Dyddiad marw: 1818
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Bwlchmaenmelyn, amaethdy ym mhlwyf Cerrigydrudion, sir Ddinbych. Priododd ferch y Cernioge Mawr yn 1765. Ymsefydlodd ym Mhentrefoelas gan gadw masnachdy ac amaethu. Bu ymryson prydyddu rhyngddo a Thomas Edwards ('Twm o'r Nant') yngl n â chwestiwn bedydd. Yn 1817 cyhoeddodd *Annerch Plant a Rhieni oddi ar farwolaeth William Thomas mab Lewis Thomas, Llanrwst*; yn 1845 cyhoeddwyd casgliad o'i waith o dan y teitl *Eos Gwynedd* dan olygiaeth William Williams ('Gwilym Caledfryn'). Cyfansoddodd emynau, e.e. ' Pwy welaf fel f'anwylyd, yn hyfryd ac yn hardd,' a charolau. Bu farw 12 Medi 1818.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

Cofrestri plwyf Cerrigydrudion

John Thomas, William Williams (gol.), *Eos Gwynedd: sef casgliad o ganiadau ar destynau crefyddol, moesol, a difyrol* (Llanrwst 1845)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Mân Adnau 1295: Llawysgrif o farddoniaeth John Thomas, Pentrefoelas, 'Eos Gwynedd'

Wikidata: Q28361476

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu